



Cysylltu'r Gymuned trwy bartneriaeth

Mae Gareth Matthews yn adrodd ar sut y mae Gwasanaeth Dydd Cysylltiadau Cymunedol Perthyn, a drefnir o Y Pwynt, Llanelli, wedi gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff lleol, yr awdurdod lleol ac yn bwysicaf y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth i ddatblygu rolau ystyrion a chyfeillgarwch yn eu cymuned leol.

Yn wreiddiol adeiladwyd y gwasanaeth o gwmpas gwasanaeth dydd traddodiadol mewn neuadd yn Llanelli a sefydlwyd ar gyfer grŵp o unigolion oedd wedi bod trwy wasanaethau plant gyda'i gilydd, a'u rhieni eisiau iddyn nhw aros gyda'i gilydd wrth symud i wasanaethau oedolion. Roedd yn cael ei ystyried yn wasanaeth da oherwydd er ei fod yn dilyn model gwasanaeth ar wahân, roedd yn llai na'r rhan fwyaf o wasanaethau dydd ac felly yn cael ei ystyried yn fwy unigol.

Tra bod adolygiadau gydag unigolion a'u teuluoedd yn dangos eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth fe welsom nad oedd pobl wedi cael y profiadau i ystyried dewisiadau eraill. Fe fuom yn gweithio gyda phobl i'w helpu i feddwl am



Nick

yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud nawr ac yn y dyfodol, creu syniadau newydd a meddwl am bethau yr hoffon nhw roi cynnig arni. Roedd hyder yn rhywbeth oedd yn codi dro ar ôl tro ac felly un o'r cyfleoedd newydd cyntaf oedd cyflwyno tiwtor i ddarparu sesiynau i'r grŵp i adeiladu hyder a chyfathrebu cymdeithasol gyda phobl newydd. Roedd hyn ar gyfer y grŵp yn unig ond yn gam angenrheidiol i ragor o integreiddio cymunedol.

Cyfleoedd newydd

Yna fe wnaethom edrych ar gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau newydd a bylchau lle y byddai angen inni ddatblygu cyfleoedd newydd ein hunain. Cytunwyd ar:

- Dylai gweithgareddau fod mewn lleoliad cymunedol naturiol ac yn agored i bawb
- Dylai'r cyfleoedd hyrwyddo'r bobl a gefnogwn fel aelodau gwerthfawr, galluog a chyfranogol o'r gymuned
- Dylai pobl gael cyfleoedd i fod gyda phobl ar wahân i staff Cysylltiadau Cymuned cyflogedig
- Os oedd angen dysgu yn cael ei nodi i unrhyw un cyn ymuno â gweithgaredd neu grŵp cymunedol, fe fyddem yn creu'r cam datblygu mewn lleoliad cymunedol naturiol lle bynnag mae hynny'n bosibl.
- Os nad oedd gweithgaredd neu leoliad naturiol ar gael yn y gymuned fe fyddem yn creu hynny yn Y Pwynt, unwaith eto fel cam ymlaen. Er enghraifft, un o'r meysydd a nodwyd yn wreiddiol fel un anodd oedd darganfod lleoliad oedd yn ymarferol gyda'r addasiadau angenrheidiol i bobl ddysgu paratoi a choginio bwyd. Tra'r nod i rai pobl ydy datblygu sgiliau a hyder i fynychu cwrs coleg neu 'ddosbarth nos' integredig, i eraill y nod ydy gallu dysgu sgiliau bywyd. Felly mae gan Y Pwynt gegin wedi'i haddasu'n llwyr sydd yn adnawdd ar gyfer y gymuned leol hefyd.

Trwy gynnwys gwybodaeth leol pawb ynghyd gyda'r tîm yng Nghymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin fe wnaethom nodi'r hyn oedd gan yr ardal i'w gynnig. Lluniwyd cysylltiadau i drefnu a chefnogi amrediad ehangach o ddewisiadau i bobl. Ar hyn o bryd mae yna 6 gwahanol dewis i ganolbwytio arny'n nhw:

Addysg, Dysgu a Datblygu Sgiliau

- mae gwaith partneriaeth wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda cholegau a busnesau lleol sydd yn galluogi pobl i gael mynediad i amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ac addysgol.

Cymdeithasol, Hamdden, Iechyd a Ffitrwydd

- mae datblygu a chynnal sgiliau cymdeithasol yn elfen allweddol wrth helpu unigolion i gynyddu annibyniaeth. Mae Cysylltiadau Cymuned yn helpu pobl i gael mynediad i weithgareddau sydd yn digwydd yn naturiol yn y gymuned.

Cyflogaeth a Gwirfoddoli

- mae hyn wedi cynnwys camau i gyflogaeth fel cyrsiau coleg i ddysgu sgiliau angenrheidiol neu leoliadau gwaith i ennyn hyder a dealltwriaeth o'r disgwyliadau, trefn ac ymrwymiad yn berthynol i waith cyflogedig. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o fusnesau ac ymddiriedolaethau lleol fel parc sglefrio Ramp a phrosiect amgylcheddol Lawr i'r Ddaear.

Cydweithio gyda Lawr i'r Ddaear

Un enghraifft o gydweithio da ydy'r berthynas gyda Lawr i'r Ddaear. Mae Perthyn wedi bod yn gweithio gyda Lawr i'r Ddaear am dair blynedd nawr ac wedi datblygu partneriaeth ardderchog, yn darparu amrywiol gyfleoedd i grwpiau bach o gyfranogwyr, a chefnogaeth gan weithwyr Lawr i'r Ddaear a thîm Cysylltiadau Cymuned Perthyn.

Dywedodd Barney O'Kane, Hwylusydd Arweiniol Lawr i'r Ddaear: "Mae'r gefnogaeth wych gan staff Perthyn sydd yn deall anghenion y cyfranogwyr ac sydd eisoes â pherthynas dda gyda nhw, yn darparu cymhelliant ardderchog a model o arfer da. Mae hyn yn cyflymu'r siawns i'r cyfranogwyr gael y mwyaf allan o'r rhaglen 8 i 10 wythnos (diwrnod yr wythnos) a theimlwn ein bod yn gweithio'n dda gyda staff Perthyn i gael y mwyaf o'r sesiynau i'r cyfranogwyr. Mae'r gweithwyr hefyd yn gymorth wrth ein cefnogi i fonitro a gwneud y gwaith papur gyda'r criw pan fydd ein cyllidwyr yn gofyn am hynny. Rydym yn mwynhau gweithio gyda Perthyn ac yn teimlo bod gennym griw o ffrindiau yn troi i fyny bob wythnos. Hir y bydd hyn yn parhau."



"Rwy'n hoffi dod yma achos mae'n fy nghadw'n brysur; rwyf allan trwy'r amser. Rwy'n dysgu dawnsio nawr ac mae'n fy nghadw'n heini." Nigel

Cysylltu'r Gymuned trwy bartneriaeth

Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli yma wedi helpu pobl i ddatblygu sgiliau a datblygu cysylltiadau a hyder hefyd sydd yn ei dro wedi agor drysau newydd i ragor o gyfleoedd.

Diwrnod Agored

Ar ôl i'r gwasanaeth arddull newydd fod yn bodoli am tua 10 mis fe wnaethom gynnal diwrnod agored gyda'r teuluoedd i gael adborth ar y newidiadau. Mae'n deg dweud eu bod yn gallu bod yn griw anodd pan fyddwn yn cael pethau'n anghywir, sef yr hyn yr ydych yn gobeithio amdano gan y prif eiriolwyr ar gyfer aelodau eu teuluoedd, ond cafodd ymdrechion pawb oedd wedi ymrwymo i'r newid eu gwobrwyo gydag adborth hynod o gadarnhaol:

“Mae'n mwynhau'n fawr ac yn sgwrsio am ei ddiwrnod pan ddaw adref wedi blino, sydd yn arwydd o ddiwrnod cynhyrchiol”

“Mae wedi datblygu llawer yn y 12 mis diwethaf, yn enwedig cymryd rhan yn Lawr i'r Ddaear, mae ei hyder yn cynyddu”

“Mae'n dod adref yn hapus ac yn sgwrsio am ei diwrnod, ni all fynd yn well na hynny”

Ond dechrau yn unig ydy hyn; mae yna lawer o gyfleoedd a phartneriaethau eto i'w creu a rhan o'n cenhadaeth ydy gwneud pobl yn ymwybodol o'r manteision o gydweithio.

Daeth Maer Llanelli, y Cynghorydd Bill Thomas i agoriad Y Pwynt, ein lleoliad newydd ar gyfer y gwasanaeth dydd ym mis Medi. Wedi gweld yr effaith y mae cydweithio wedi'i

gael ar y gwasanaeth a'r gymuned mae'n awyddus i roi cefnogaeth bellach ac mae wedi dechrau trwy drefnu noson rwydweithio yn y siambr drafod. Rydym yn gobeithio y bydd digwyddiadau fel hyn yn ein helpu ni yn Perthyn i wireddu potensial llawn cydweithio yn y gymuned a helpu cyrff eraill hefyd yn yr hinsawdd ariannol heriol yma.

Yn ddiweddar cawsom ymweliad gan yr Aelod Cynulliad Lleol, Lee Waters a ddywedodd:

“Mae angen i awdurdodau lleol, perchnogion busnes ac elusennau gydweithio a chynnig amgylchedd gynhwysol i unigolion sydd yn aml yn cael anhawster i ddatblygu sgiliau y mae pobl eraill weithiau yn eu cymryd yn ganiataol.

I gyflawni hyn mae angen i bob corff yn Llanelli chwarae eu rhan ac rwy'n falch o weld ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Mae Perthyn yn gwneud gwaith ardderchog o gydlynu gwasanaethau i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn mwynhau cymaint o gyfleoedd â'r gweddill ohonom. Yn ystod fy ymweliad roedd brwdfrydedd y staff a'r amgylchedd roedden nhw wedi'i greu wedi creu argraff arna'i. Fe wnes gyfarfod â nifer o bobl sy'n defnyddio'r cyfleuster ac roedd pawb yn awyddus i ddweud cymaint roedden nhw'n mwynhau'r hyn sy'n cael ei gynnig a sut y mae wedi bod o fudd iddyn nhw”

Ar hyn o bryd mae Perthyn yn recriwtio gweithiwr cefnogi a swyddi rheoli wrth ehangu'r Gwasanaeth Cysylltiadau Cymuned. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn trafod hyn ymhellach cysylltwch gyda Gareth Matthews yn gareth.matthews@perthyn.org.uk neu ewch i www.perthyn.org.uk am becyn cais.

Gareth Matthews
Perthyn

Pwyntiau Allweddol

- Yn wreiddiol adeiladwyd y **Gwasanaeth Cysylltiadau Cymuned** o amgylch gwasanaeth dydd traddodiadol mewn neuadd yn Llanelli. Tra bod unigolion a'u teuluoedd yn hapus gyda'r gwasanaeth roedd cydnabyddiaeth nad oedd pobl yn cael y profiad i ystyried dewisiadau eraill
- **Doedd gan rhai pobl ddim hyder** i roi cynnig ar gyfleoedd newydd felly trefnwyd sesiynau hyfforddi i helpu pobl
- **Ffurfiwyd cysylltiadau** i drefnu a chefnogi amrediad eang o gyfleoedd i bobl. Ar hyn o bryd mae yna hyd at 6 gwahanol cyfle y diwrnod.
- **Mae Perthyn wedi derbyn canmoliaeth** gan unigolion, teuluoedd a chyrrff partner am y gwaith mae'n ei wneud gyda Chysylltiadau Cymuned.



“Rwy'n hoffi'r gwasanaeth oherwydd rwy'n dod i gyfarfod ffrindiau a dysgu pethau newydd. Mae'n fy ngwneud yn hapus, fe wnes fwynhau'r cwrs sgiliau bywyd a dysgu reidio beic.” Colin